Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

# AWMSG a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)



AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC).

Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau at AWTTC:

Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC)
Canolfan Academaidd Routledge
Ysbyty Athrofaol Llandochau
Heol Penlan
Llandochau
Bro Morgannwg
CF64 2XX

awttc@wales.nhs.uk
029 218 26900

Gellir atgynhyrchu'r wybodaeth a gyflwynir yn y ddogfen hon gan ddefnyddio'r enwau canlynol: Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan, AWMSG a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Hawlfraint AWTTC Ebrill 2022. Cedwir pob hawl.**

# Cynnwys

Rhestr o dalfyriadau ..... 3
Llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru ..... 4
Cyrff cyhoeddus a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ..... 4
Saith nod llesiant a Strategaeth 2018–2023 AWMSG ..... 5
Ein cynllun ..... 12
Beth ydym wedi'i wneud eisoes? Enghreifftiau o'n gwaith blaenorol ..... 15
Cyfeiriadau ..... 18

## Rhestr o dalfyriadau

| | |
|---|---|
| ATMP | Cynnyrch Therapiwtig Meddyginiaethol Uwch |
| AWMSG | Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan |
| AWTTC | Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan |
| EqHIA | Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd |
| EMA | Asiantaeth Meddyginiaethau Ewropeaidd |
| HTA | Asesiad technoleg iechyd |
| ILAP | Llwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol |
| IPFR | Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol |
| MHRA | Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd |
| NICE | Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal |
| PAPIG | Grŵp Buddiannau Cleifion a’r Cyhoedd |
| WHO | Sefydliad Iechyd y Byd |
| WHSSC | Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru |
| WPAS | Cynllun Mynediad Cleifion Cymru |

## Llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru

Mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) a Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) yn cefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol drwy eu gwaith i:

- sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gallu cael gafael ar feddyginiaethau sy'n glinigol effeithiol a chosteffeithiol cyn gynted â phosibl pan fydd eu hangen arnynt; ac
- amddiffyn y cyhoedd drwy wella'r defnydd diogel o feddyginiaethau.

Nod AWMSG ac AWTTC yw lleihau anghydraddoldebau mewn gofal iechyd yn ymwneud â meddyginiaethau ledled Cymru; mae hyn yn golygu lleihau unrhyw wahaniaethau mewn gofal iechyd rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol neu hiliol. Mae AWMSG ac AWTTC wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb (mae gan bawb yr un hawliau a chyfleoedd â phawb arall) a thegwch.

Er mwyn sicrhau y gall GIG Cymru ddarparu'r gofal iechyd gorau posibl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a defnyddio adnoddau cyfyngedig y GIG yn ddoeth, bydd canllawiau presgripsiynu AWMSG yn hanfodol i:

- sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu defnyddio'n gywir ac yn y sefyllfaoedd clinigol cywir;
- lleihau swm y presgripsiynu amhriodol ac amrywiadau mewn presgripsiynu ledled Cymru; a
- lleihau gwastraff meddyginiaethau.

## Cyrff cyhoeddus a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru o leiaf yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym ni ar hyn o bryd[1]. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant i gyrff cyhoeddus eu cyflawni drwy ddilyn pum ffordd o weithio:

- **hirdymor**: cydbwyso anghenion tymor byr â'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor;
- **atal**: helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu;
- **integreiddio**: ystyried sut y gall eu hamcanion effeithio ar y nodau llesiant, eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill;
- **cydweithredu**: meddwl am weithio gydag eraill, gan gynnwys cyrff cyhoeddus eraill;
- **cynnwys**: ystyried a chynnwys pobl sydd â diddordeb wrth gyflawni'r nodau llesiant, gan sicrhau bod y bobl hyn yn adlewyrchu amrywiaeth y maes y mae'r corff yn ei wasanaethu.

Bydd AWMSG ac AWTTC yn sicrhau eu bod yn dilyn y pum ffordd hyn o weithio wrth wneud penderfyniadau ym mhob elfen o'u gwaith. Bydd AWMSG yn sicrhau bod asesiadau effaith cydraddoldeb ac iechyd yn cael eu cynnal, ac yr ymgynghorir arnynt, ar gyfer ei holl waith.

Mae'r Ddeddf yn diffinio datblygu cynaliadwy fel "y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant"[1]. Dylai pob corff cyhoeddus gynnal gwaith datblygu cynaliadwy, a gweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Dylai cyrff cyhoeddus gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu gwaith. Rhaid iddynt osod a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n dangos sut y byddant yn gweithio i gyflawni'r saith nod llesiant, a hefyd dangos y cynnydd y maent yn ei wneud tuag at eu cyflawni[1]. Mae AWTTC wedi sefydlu Grŵp Cynaliadwyedd i helpu i gymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ei waith ac yng ngwaith AWMSG.

## Saith nod llesiant a Strategaeth 2018–2023 AWMSG

Cyhoeddodd AWMSG argymhellion yn ei Strategaeth Pum Mlynedd 2018–2023[2]. Mae'r argymhellion yn ymwneud yn uniongyrchol â'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[1] Llywodraeth Cymru. Mae'r saith nod hyn yn gysylltiedig: gallai rhai argymhellion helpu i gyflawni mwy nag un nod. Isod rydym yn amlygu argymhellion AWMSG a sut y byddant yn helpu AWMSG ac AWTTC i weithio tuag at y saith nod llesiant.

### Nod Lleisiant 1: Cymru lewyrchus

**Argymhellion AWMSG:**
2.2 Gwasanaethau gofal cartref meddyginiaethau
3.6 Ailddyrannu adnoddau
4.6 Asesiad technoleg iechyd (HTA) – adolygu'r broses arfarnu i ddiwallu anghenion sy'n datblygu GIG Cymru
4.7 Cynllun Mynediad Cleifion Cymru – sicrhau bod GIG Cymru yn adennill unrhyw ddisgowntiau ariannol

Rydym yn cydnabod cyfyngiadau'r adnoddau ariannol presennol ar gyfer gofal iechyd a'i bod yn hanfodol defnyddio'r rhain yn effeithlon ac yn gymesur. Ar hyn o bryd, mae AWMSG yn arfarnu'r holl feddyginiaethau newydd nad ydynt yn cael eu hystyried gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), gan sicrhau bod yr adnoddau ariannol presennol yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Mae AWMSG yn gweithio i ddarparu ffyrdd arloesol o sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn cael meddyginiaethau am bris y gall y GIG ei fforddio drwy archwilio cynlluniau arloesol fel Cynllun Mynediad Cleifion Cymru (WPAS), cyfleoedd i ailddyrannu adnoddau a monitro gwasanaethau gofal cartref.

Mae AWTTC wedi datblygu offeryn ar SPIRA (y gweinydd ar gyfer adrodd a dadansoddi gwybodaeth presgripsiynu) i fonitro ôl troed carbon dyfeisiau anadlydd meddygol a ddefnyddir ar gyfer asthma ac anhwylder rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Mae AWTTC yn mesur y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyrraedd targed Cynllun Cyflawni Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru i gynyddu'r defnydd o anadlyddion sydd â photensial cynhesu byd-eang isel i 80% o gyfanswm yr anadlyddion a ddosbarthir erbyn 2025. Byddai hyn yn cyfateb i ostyngiad mewn carbon deuocsid ($CO_2$) o waelodlin o 65,000 tunnell y flwyddyn i 20,000 tunnell erbyn 2025; gwahaniaeth o 45,000 tunnell o garbon deuocsid bob blwyddyn. Mae AWTTC yn rhagweld y bydd yr offeryn yn helpu i lywio sgwrs rhwng ymarferwyr a chleifion am ôl troed carbon anadlyddion a chefnogi, lle bo'n briodol, newid i anadlyddion amgen.

Rhoddodd Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) AWMSG fewnbwn i'r gwaith o ddatblygu taflen i gleifion i annog pobl i newid i ddefnyddio anadlydd powdr sych, sy'n fwy ecogyfeillgar (ôl troed carbon is) nag anadlyddion dos mesuredig.

Bydd AWMSG yn parhau i gydweithio ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â chymeradwyo meddyginiaethau ac ymgysylltu â'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i sicrhau hyder parhaus yn y broses. Bydd sawl her a chyfle yn effeithio ar y ddarpariaeth meddyginiaethau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol; er enghraifft, meddyginiaethau amddifad a thra amddifad, a therapïau celloedd a genynnau arloesol. Caiff AWTTC ei gynrychioli ar y Grŵp Genomeg-Oncoleg Cymru Gyfan, i sicrhau bod datblygiad meddyginiaethau manwl yng Nghymru yn cyd-fynd â nodau AWMSG. Mae AWMSG yn archwilio ffyrdd arloesol o gyllido er mwyn sicrhau mynediad at feddyginiaethau newydd ac arloesol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae AWTTC yn cynrychioli AWMSG mewn trafodaethau gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a NICE ynglŷn â Llwybr Trwyddedu a Mynediad Arloesol (ILAP) newydd NICE.

Mae AWTTC wedi sefydlu Fforwm Diwydiant gyda chynrychiolwyr cwmnïau fferyllol, a allai ystyried syniadau a phrosiectau posibl ynglŷn â lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chyflenwi a defnyddio meddyginiaethau.

**Nod Llesiant 2: Cymru gydnerth**

**Argymhellion AWMSG:**
2.3 Systemau meddyginiaethau diogel
3.1 Derbyniadau cysylltiedig â meddyginiaeth
3.4 Lleihau niwed cysylltiedig â meddyginiaeth
3.5 Gwyliadwriaeth fferyllol
4.5 Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol
4.8 Defnyddio data i wella canlyniadau cleifion

Bydd cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn wynebu llawer o heriau mawr o ran defnyddio meddyginiaethau, gan gynnwys lefelau cynyddol o ymwrthedd gwrthficrobaidd a niwed cysylltiedig â meddyginiaeth yn sgil polyfferylliaeth[3].

Lansiwyd Her Diogelwch Cleifion Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd (WHO): *Medication Without Harm* ym mis Mawrth 2017. Amlygodd bwysigrwydd lleihau niwed cysylltiedig â meddyginiaeth a heriodd wledydd i leihau niwed difrifol cysylltiedig â meddyginiaeth gan 50% dros y pum mlynedd nesaf[4]. Er mwyn ymateb i her Sefydliad Iechyd y Byd, mae AWMSG wedi datblygu Dangosyddion Diogelwch Cleifion Cenedlaethol gyda'r bwriad o amlygu materion diogelwch presgripsiynu posibl a, thrwy eu defnyddio, sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru yn cael eu hamddiffyn rhag y meysydd hyn sy'n peri pryder.

Bydd AWMSG yn cefnogi gwaith i fonitro derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth a mentrau i leihau'r mathau hyn o dderbyniadau. Mae AWMSG hefyd yn gweithio i wella'r gwaith o fonitro adweithiau niweidiol yn sgil defnydd meddyginiaethau yng Nghymru er mwyn helpu i nodi arwyddion a, thrwy ganfod adwaith niweidiol i gyffuriau'n gynnar, atal cenedlaethau'r dyfodol rhag niwed cysylltiedig â meddyginiaeth megis trychineb thalidomid y 1960au.
Mae deall goblygiadau amddifadedd economaidd-gymdeithasol uchel ar y defnydd o feddyginiaethau gan genedlaethau'r dyfodol yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael ag effaith anghydraddoldebau iechyd ar amrywiadau yn y defnydd o feddyginiaeth[5].

Mae AWMSG yn gweithio gyda byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd a rhanddeiliaid i barhau i ddatblygu Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol a dangos gwelliant mewn canlyniadau gofal iechyd i gleifion drwy ddefnyddio'r holl dechnoleg iechyd sydd ar gael. Sefydliad sylwebydd yw AWTTC ar ddatblygiad proses newydd yn NICE ar gyfer arfarnu gwrthfiotigau mewn technoleg iechyd.

Mae AWTTC yn cefnogi prosiect i asesu'r problemau amgylcheddol a achosir gan y defnydd o wrthfiotigau. Gallai AWMSG ystyried unrhyw effaith amgylcheddol bosibl meddyginiaethau, megis ei grynodiad dim effaith a ragwelir (PNEC) – y crynodiad na ddisgwylir unrhyw effeithiau andwyol ar yr ecosystem ddigwydd os eir yn is nag ef.

Mae AWMSG yn cefnogi presgripsiynu cymdeithasol fel ffordd o leihau'r defnydd o fathau penodol o feddyginiaethau; er enghraifft, mae taflen wybodaeth i gleifion ynglŷn â tramadol yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.

Mae AWTTC yn gweithio ar offeryn i dynnu sylw at anghydraddoldebau o ran presgripsiynu meddyginiaethau yng Nghymru.

## Nod Llesiant 3: Cymru iachach

**Argymhellion AWMSG:**

1.1 Partneriaeth gyda'r cyhoedd
1.2 Lleihau gwastraff meddyginiaethau
1.3 Sicrhau y darperir gofal iechyd mewn ffordd deg a chyfiawn
2.1 Datblygu'r gweithlu
3.2 Adolygu meddyginiaethau
4.4 Systemau presgripsiynu rheolaidd

Mae AWMSG yn canolbwyntio ar sicrhau lles corfforol a meddyliol gorau posibl pobl a gwneud yn siŵr bod dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall.
Mae AWMSG hefyd wedi ymrwymo i atal clefydau, yn ogystal ag atal niwed gan feddyginiaethau. Mae gan wefan AWTTC dudalen wedi'i neilltuo i wybodaeth am frechlyn COVID-19, ac ystod o adnoddau gwybodaeth yn ymwneud â phandemig COVID 19.

Mae AWMSG yn cefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd, ac mae'n ymgysylltu â Doeth am Iechyd Cymru i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a chyfranogiad y cyhoedd yng ngwaith AWMSG.

Mae AWMSG yn gweithio i sicrhau Cymru iachach a mwy gwybodus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a bydd yn annog datblygiad y gweithlu drwy gefnogi byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i ddarparu cyfleoedd addysg i bresgripsiynwyr. Bydd darparu mentrau addysgol yn sicrhau bod presgripsiynwyr a rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith a wneir gan AWMSG ac yn sicrhau gwasanaeth gofal iechyd cyfoes a gwybodus yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae AWTTC yn trefnu ac yn cynnal Diwrnod Arfer Gorau blynyddol i rannu arfer da mewn mentrau presgripsiynu meddyginiaethau a diogelwch. Mae'r cyfarfod yn dod â thimau o bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru ynghyd, gyda'r nod o rannu arfer presgripsiynu da, a thynnu sylw at unrhyw strategaethau a phrosiectau penodol a ddefnyddir i gael y cyfle gorau posibl o gyflawni unrhyw un o'r

Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol, gan gynnwys manteision presgripsiynu cymdeithasol.

Mae holl ymgynghoriadau AWMSG yn cael eu cyhoeddi ar wefan AWMSG a gall unrhyw un gyfrannu. Cysylltir yn uniongyrchol hefyd ag aelodau Grŵp Buddiannau Cleifion a’r Cyhoedd (PAPIG) AWMSG ynglŷn ag ymgynghoriadau cyhoeddus AWMSG. Mae cleifion a’r cyhoedd yn chwarae rhan yng ngwaith AWMSG wrth arfarnu meddyginiaethau a chynhyrchu cyngor i wella optimeiddio meddyginiaethau.

**Nod Llesiant 4: Cymru sy’n fwy cyfartal**

**Argymhellion AWMSG:**
1.3 Sicrhau y darperir gofal iechyd mewn ffordd deg a chyfiawn
3.3 Siart presgripsiynu a gweinyddu cenedlaethol
4.1 Technoleg ddigidol drawsnewidiol
4.2 Rhestr o feddyginiaethau sydd ar gael yn genedlaethol

Drwy arfarnu meddyginiaethau newydd (y rheini nad ydynt ar raglen waith NICE) mae AWMSG yn sicrhau bod cleifion yng Nghymru, waeth beth fo’u cod post, eu cefndir neu eu hamgylchiadau, yn gallu cael mynediad at feddyginiaethau newydd sy’n glinigol effeithiol ac yn gost effeithiol ar yr adeg briodol. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau iechyd gwell i gleifion.

Mae AWTTC yn cydlynu proses Cymru’n Un i sicrhau bod pob claf yng Nghymru yn gallu cael mynediad at feddyginiaethau nad ydynt efallai’n cael eu presgripsiynu fel mater o drefn yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaethau:

- y bydd NICE neu AWMSG yn eu harfarnu yn y dyfodol;
- nad ydynt eto wedi’u trwyddedu gan yr MHRA neu’r EMA;
- sydd wedi’u trwyddedu ond dim ond i drin cyflwr gwahanol; neu
- sydd heb eu cynnwys yn y canllawiau triniaeth presennol.

Bydd AWMSG yn cyflwyno mesurau i sicrhau y cedwir at y Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol. Bydd hefyd yn datblygu siart presgripsiynu a gweinyddu Gofal Cartref Cymru Gyfan, i helpu cenedlaethau’r dyfodol i ddefnyddio eu meddyginiaethau.

Mae AWMSG yn cefnogi cyflwyno un system bresgripsiynu electronig mewn ysbytai yng Nghymru. Bydd cyflwyno presgripsiynu electronig o fudd i genedlaethau’r dyfodol yng Nghymru o ganlyniad i welliannau cysylltiedig mewn diogelwch meddyginiaethau. Bydd cael system bresgripsiynu electronig genedlaethol yn golygu y bydd cyfathrebu yn digwydd rhwng holl ysbytai Cymru, gan alluogi dull gwell o gofnodi’r defnydd o feddyginiaethau a gwell gwasanaeth i gleifion a allai fod dan ofal mwy nag un ysbyty.

Mae AWMSG wedi ymrwymo i nodau Llywodraeth Cymru i greu:

- Cymru fwy cyfartal lle mae pawb yn cael eu trin fel dinesydd cyfartal, a
- newid ystyrlon i ganlyniadau mewn gofal iechyd ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Bydd AWMSG yn sicrhau bod unrhyw amrywiad hiliol posibl ym metaboledd meddyginiaethau yn cael ei ystyried, fel bod holl ddinasyddion Cymru yn cael budd o'r meddyginiaethau a arfarnwyd ac a ystyriwyd gan AWMSG.

Bydd AWMSG a'i is-bwyllgorau yn ystyried effaith eu gwaith ar bobl yng Nghymru, a'u hiechyd a'u lles; bydd hefyd yn ystyried sut i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau iechyd mewn perthynas â'r defnydd o feddyginiaethau. Bydd AWTTC yn cefnogi hyn drwy sicrhau bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac iechyd (EqHIA) yn cael ei gynnal ar gyfer pob prosiect a chanllawiau sy'n mynd i AWMSG i'w cymeradwyo, a hefyd ar gyfer polisïau mewnol AWTTC. Bydd AWTTC yn ceisio amlygu unrhyw ffactorau a allai fod yn anfanteisiol i ganlyniadau pobl mewn gofal iechyd, megis statws economaidd-gymdeithasol, anabledd neu leoliad. Bydd pob EqHIA ar gael ar wefan AWTTC i bob rhanddeiliad wneud sylwadau arno.

Mae Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu AWTTC yn nodi y bydd "pob gweithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu yn ystyried asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a sefydlir cyfathrebu lliniarol i sicrhau tegwch o ran mynediad a gwybodaeth".

**Nod Llesiant 5: Cymru o gymunedau cydlynus**

**Argymhellion AWMSG:**
1.1 Partneriaeth gyda'r cyhoedd
2.1 Datblygu'r gweithlu
4.3 Gwella presgripsiynu ac optimeiddio meddyginiaethau o fewn GIG Cymru
4.5 Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol

Mae AWMSG yn gweithio i gyfathrebu'n well â'r holl randdeiliaid. Mae AWTTC wedi datblygu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i rannu ei waith a gwaith AWMSG. Nod y strategaeth yw:

- hysbysu a chodi ymwybyddiaeth o AWMSG;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol a'u cynnwys; a
- meithrin cydnabyddiaeth a chynnal ymgysylltiad ar gyfer gwaith AWMSG.

Yn benodol, dylai'r strategaeth helpu AWMSG i ddatblygu a chynnal ymgysylltiad â chleifion a'r cyhoedd, rhwydweithiau clinigol a chwmnïau fferyllol. Mae'r gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu sydd wedi'u cynllunio yn cynnwys: arolygon ar-lein ac ymgyrchoedd cysylltiadau cyhoeddus, sianeli cyfryngau cymdeithasol (Twitter, LinkedIn), podlediadau a digwyddiadau rhithwir; mynychu cynadleddau a chyfarfodydd, ac estyn allan i rwydweithiau gofal sylfaenol a rhwydweithiau clinigol. Bydd AWTTC yn gweithio gyda sefydliadau yng Nghymru sy'n cefnogi cleifion a gofalwyr i geisio ymgysylltu â phobl yng Nghymru nad ydynt ar-lein neu nad ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Bydd AWMSG yn mesur llwyddiant ei strategaeth i wella cyfathrebu ac ymgysylltu drwy fonitro a cheisio mynd i'r afael ag amrywiadau amhriodol mewn Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol, a thrwy ymchwilio i ymwybyddiaeth bresennol o AWMSG ymhlith y cyhoedd yng Nghymru.

Mae AWTTC yn gweithio mewn partneriaeth ag 'Yma', menter gymdeithasol nid er elw, i ddatblygu canllawiau presgripsiynu ac offer ymarferol ar y cyd ag ymarferwyr

cyffredinol sydd â rôl arweiniol mewn presgripsiynu, i gefnogi hyrwyddo arfer gorau ac yn y pen draw gwella diogelwch cleifion yng Nghymru.

Mae AWMSG wedi ymrwymo i ddatblygu cymunedau hyfyw, diogel sydd wedi'u cysylltu'n dda. Mae'n cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn ei waith i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gwbl ymwybodol o waith AWMSG. Lansiwyd gwefan newydd AWTTC yn 2022 ac mae'n ymgorffori gwaith AWMSG. Mae'r wefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gall ein holl randdeiliaid gyflwyno eu barn yn Gymraeg neu Saesneg ar unrhyw ymgynghoriadau, prosiectau ac arfarniadau meddyginiaethau.

### Nod Llesiant 6: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Argymhellion AWMSG:**
1.1 Partneriaeth gyda'r cyhoedd
2.1 Datblygu'r gweithlu

Mae AWMSG yn hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant ac mae wedi datblygu Strategaeth Iaith Gymraeg. Nod AWMSG yw bod yn bresennol yn yr Eisteddfodau cenedlaethol; a bydd yn darparu dogfennau, fideos a gwefannau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd AWMSG yn sicrhau bod ei gyfarfodydd mewnol a'i gyfarfodydd cyhoeddus yn bodloni Safonau'r Gymraeg.

Fel rhan o Strategaeth y Gymraeg, bydd pob gweithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gyda'r nod o sicrhau amgylchedd sy'n annog ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg o fewn AWTTC ac AWMSG ar gyfer clinigwyr sy'n siarad Cymraeg, aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a restrir fel rhan o Hysbysiad Cydymffurfiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae AWTTC wedi creu Cynllun Gweithredu Cyffredinol a bydd yn monitro cynnydd y safonau a amlinellir yn y cynllun hwn.

Mae AWTTC yn gweithio'n agos gyda sefydliadau academaidd Cymru: yn cynnwys myfyrwyr PhD mewn amrywiol brosiectau sy'n ymwneud â meddyginiaethau, yn cyhoeddi papurau ymchwil ac yn cyflwyno posteri mewn cynadleddau a chyfarfodydd gwyddonol.

### Nod Llesiant 7: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**Argymhellion AWMSG:**
1.2 Lleihau gwastraffu meddyginiaethau
1.3 Sicrhau y darperir gofal iechyd mewn ffordd deg a chyfiawn
3.4 Lleihau niwed cysylltiedig â meddyginiaeth
4.6 HTA – adolygu'r broses arfarnu i ddiwallu anghenion sy'n datblygu GIG Cymru

Mae AWMSG yn gorff arfarnu cenedlaethol cydnabyddedig ac mae wedi bod yn arfarnu meddyginiaethau drwy asesiad technoleg iechyd am dros 18 mlynedd[6]. Mae proses arfarnu AWMSG wedi'i hachredu fel arfer gorau gan NICE. Mae penderfyniadau AWMSG wedi'u cynnwys yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain. Gyda phenderfyniadau amserol yn cael eu gwneud ar argaeledd meddyginiaethau

newydd a datblygiad canllawiau arfer gorau, mae AWMSG yn cyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Bydd AWMSG yn ystyried effaith amgylcheddol y meddyginiaethau y mae'n eu harfarnu a'u hargymell.

Mae AWMSG yn hyrwyddo stiwardiaeth gwrthficrobaidd ac yn gweithio tuag at ffyrdd o leihau ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Mae AWMSG wedi ymrwymo i her fyd-eang Sefydliad Iechyd y Byd i leihau niwed difrifol sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth gan 50% dros bum mlynedd er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae AWTTC yn datblygu prosiect ar 'ddad-labelu alergedd penisilin'. Mae rhai pobl yn meddwl, neu wedi cael gwybod, bod ganddynt alergedd i benisilin ond pan gânt eu profi nid oes ganddynt alergedd iddo mewn gwirionedd. Yna gellid rhoi gwrthfiotigau penisilin i'r bobl hyn os oes angen, yn lle bod yn rhaid iddynt gymryd gwrthfiotigau amgen a allai fod â mwy o sgil-effeithiau na gwrthfiotigau penisilin. Nod y prosiect yw datblygu algorithm i helpu i nodi pwy allai fod angen cael eu profi am alergedd i benisilin.

Mae cadw at feddyginiaethau yn un o lawer o achosion gwastraffu meddyginiaethau. Mae prosiect cydweithredol ar y gweill, a ariennir gan AWTTC ac mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor a Chomisiwn Bevan, i edrych ar wella cadw at feddyginiaeth a thrwy hynny leihau gwastraff meddyginiaethau. Mae Sefydliad Iechyd y Byd a NICE yn honni na chymerir rhwng traean a hanner y meddyginiaethau a ddosberthir fel yr argymhellir. Amcangyfrifwyd bod gwerth £300 miliwn o feddyginiaethau a bresgripsiynir gan y GIG yn cael eu gwastraffu bob blwyddyn[7]. Gallai lleihau gwastraff wella profiad y claf drwy optimeiddio ei feddyginiaeth a lleihau'r galw diangen ar y GIG[7].

Cynhaliodd AWTTC y gynhadledd Asesu Technoleg Iechyd Rhyngwladol (HTAi) rithwir yn 2021, ac mae nawr yn cydweithio â sefydliadau yn y DU (NICE a Chonsortiwm Meddyginiaethau'r Alban) a hefyd yng Nghanada ac Awstralia.

## Ein cynllun

Bydd AWTTC yn cyhoeddi datganiad llesiant wrth osod amcanion llesiant yn egluro pam ei fod yn teimlo y bydd yr amcan yn ei helpu i gyflawni'r nodau a sut mae wedi cymhwyso'r datblygiad cynaliadwy. Bydd AWMSG yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos ein cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion llesiant.

Mae AWMSG ac AWTTC wedi dechrau gosod pedwar amcan sy'n disgrifio sut rydym yn bwriadu cyflawni'r saith nod llesiant, ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wrth galon ein gwaith.

**Amcan 1: Tynnu sylw at yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol mewn perthynas â meddyginiaethau**
**Bydd AWMSG yn**:

- Bod yn warcheidwad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – gan weithio gyda'r cyhoedd, cleifion a'r holl randdeiliaid. Drwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, byddwn yn datblygu'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu ac amlygu'r cyfleoedd i weithredu.
- Cefnogi a chymeradwyo gwaith y GIG yng Nghymru i sicrhau defnydd doeth a diogel o feddyginiaethau a darparu cyngor ac addysg ar optimeiddio meddyginiaethau.
- Defnyddio ein harbenigedd a data i nodi problemau posibl gyda phresgripsiynu neu ddefnyddio meddyginiaethau, a gweithredu i atal problemau rhag gwaethygu.
- **Creu'r seilwaith cywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**, gan ganolbwyntio ar:
  - sicrhau bod ein proses arfarnu meddyginiaethau yn cyd-fynd â rhai cyrff asesu technoleg iechyd eraill y DU;
  - cefnogi cyflwyniad meddyginiaethau arloesol, fel ATMP a meddyginiaethau manwl; ac
  - ailddyrannu adnoddau – gwneud y defnydd gorau o adnoddau presennol.
- **Arfogi pobl ar gyfer y dyfodol, drwy:**
  - roi'r sgiliau iddynt ddefnyddio meddyginiaethau yn y dyfodol, drwy ddatblygu'r gweithlu;
  - monitro diogelwch meddyginiaethau; a
  - lleihau derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i niwed cysylltiedig â meddyginiaeth.
- Rhannu'r hyn a ddysgwyd â gwledydd eraill - hyrwyddo arfer gorau a ddysgwyd yng Nghymru tra'n dysgu gan sefydliadau eraill - cefnogi a herio cynnydd ar ddatblygu cynaliadwy.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn:**

- Pennu (ac adolygu bob hyn a hyn) meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau a'r materion mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Bydd AWMSG yn ymgysylltu ag arbenigwyr, sefydliadau, cyrff cyhoeddus a dinasyddion i ddiffinio'r heriau a'r materion hyn, gan nodi cyfleoedd a strategaethau allweddol i fynd i'r afael â hwy.

- Monitro ein hamcanion llesiant, datblygiad polisi a’n penderfyniadau, o fewn ein meysydd blaenoriaeth, i nodi cyfleoedd allweddol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac argymhellion strategaeth AWMSG i sicrhau ein bod yn cymhwyso egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru).
- Gweithio gydag eraill, meithrin gwybodaeth am y saith nod llesiant a meysydd blaenoriaeth a datblygu adnoddau wedi’u targedu sy’n nodi’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu Cymru a dangos y gwahaniaeth cadarnhaol y gall gweithredu’r Ddeddf ei wneud.
- Cynnal, ymgynghori a chyhoeddi Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd ar waith a pholisïau AWMSG ac AWTTC fel mater o drefn.

**Amcan 2: Meddwl am effaith hirdymor yr hyn a wnawn**
**Bydd AWMSG yn:**

- Cefnogi ei holl randdeiliaid i ddatblygu dull integredig, hirdymor ar gyfer hyrwyddo’r nodau llesiant a’r argymhellion presennol yn Strategaeth 2018–2023 AWMSG.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn:**

- Sefydlu partneriaethau gyda’r cyrff priodol sy’n arwain ar y gwahanol feysydd a gwmpesir gan argymhellion Strategaeth AWMSG. Defnyddio arbenigedd AWMSG a’i is-bwyllgorau i helpu i ddatblygu argymhellion Strategaeth AWMSG.
- Sefydlu Grŵp Cynaliadwyedd yn AWTTC i ddatblygu a hyrwyddo amgylchedd gwaith sy’n gwella effeithlonrwydd ynni a defnydd cynaliadwy o adnoddau, gan gynnwys lleihau gwastraff meddyginiaethau.
- Datblygu a monitro dangosfwrdd i ddangos ôl troed carbon meddyginiaethau a ddefnyddir yng Nghymru, i annog trafodaeth a datblygu mecanweithiau i leihau effaith amgylcheddol andwyol meddyginiaethau ar genedlaethau’r dyfodol.
- Gweithio gyda chyrff cyhoeddus, gan gynnwys PAPIG, i ddatblygu gwaith sy’n addas ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol, gan roi ystyriaeth well i effaith hirdymor eu penderfyniadau a chynyddu eu cyfraniad i bob un o’r nodau llesiant.

**Amcan 3: Gweithio gydag eraill i ysgogi’r newidiadau sydd eu hangen**
**Bydd AWMSG yn:**

- Adeiladu partneriaethau cryf ac effeithiol gyda’n holl randdeiliaid i roi argymhellion strategol AWMSG ar waith.
- Cydweithio â chleifion, gofalwyr a sefydliadau cleifion; grwpiau budd cyhoeddus; cwmnïau fferyllol; byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru; gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, y DU a ledled y byd.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn**:

- Gan weithio gyda rhanddeiliaid, byddwn yn datblygu dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio argymhellion strategol AWMSG fel fframwaith ar gyfer newid trawsnewidiol.
- Datblygu ein seilwaith cyfathrebu, gan gynnwys grwpiau clwstwr, cydweithio â grwpiau a phartneriaid eraill, i gefnogi a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o waith a nodau AWMSG.

- Sefydlu fforymau a chyfarfodydd rheolaidd i hysbysu a chydweithio â'n rhanddeiliaid, gan gynnwys y diwydiant fferyllol, meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.
- Cynnal cyfarfodydd a gweithdai rheolaidd gyda'n Grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) i feithrin dealltwriaeth o lefelau cynnwys ac ymgysylltu â dinasyddion yng Nghymru, i gefnogi datblygu cynaliadwy a gweithrediad argymhellion Strategaeth AWMSG.
- Parhau i ddatblygu a gweithredu ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, a galluogi pobl yng Nghymru i chwarae mwy o ran yng ngwaith AWMSG ac AWTTC. Cynnwys lleygwyr, cleifion a gofalwyr wrth ddatblygu unrhyw un o'n hadnoddau sydd wedi'u hanelu at gleifion a'r cyhoedd.

**Amcan 4: Bod y newid rydym am ei weld mewn eraill**
**Bydd AWMSG yn:**

- Dilyn y pum ffordd o weithio yn rheolaidd yn yr holl waith a wnawn.
- Cydweithio a defnyddio dull partneriaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth a chyflawni ein hargymhellion.
- Ceisio dysgu gan eraill a rhannu ein dysgu sefydliadol gyda chyrff cyhoeddus eraill a'n rhanddeiliaid, drwy weithdai a diwrnodau hyfforddi, cyhoeddiadau a'n sianeli cyfathrebu.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn:**

- Datblygu a chreu diwylliant ac arferion gwaith yn AWMSG ac AWTTC sy'n cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant drwy ddilyn y pum ffordd o weithio. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r nodau a'r pum ffordd o weithio o fewn ein sefydliadau.
- Adeiladu seilwaith i gyflawni ein gwaith yn seiliedig ar bartneriaethau ag eraill, gan osgoi dyblygu gwaith a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol AWMSG, gan gynnwys ein datganiad llesiant a dangos ein cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant drwy weithredu argymhellion Strategaeth AWMSG.
- Sicrhau bod yr holl ddogfennau a gyhoeddir gan AWMSG ac AWTTC yn hygyrch, ac yn defnyddio iaith gynhwysol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Sicrhau bod ein holl ddogfennau ar gyfer cleifion a'r cyhoedd yn defnyddio iaith glir, neu'n cynnwys crynodeb mewn iaith glir (ar gyfer dogfennau technegol). Cynhyrchu fformatau gwybodaeth Hawdd ei Deall i gleifion os oes angen.

## Beth ydym wedi'i wneud eisoes? Enghreifftiau o'n gwaith blaenorol

### Nod Llesiant 1 – Cymru lewyrchus

- Helpodd AWTTC i weithredu system cyffuriau cost uchel (HCD) Blueteq ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC). Lansiwyd y system HCD ym mis Mai 2021 ac mae'n cefnogi rhoi Cynhyrchion Therapiwtig Meddyginiaethol Uwch (ATMP) a gomisiynwyd gan WHSSC ar waith. Bydd y system yn caniatáu i GIG Cymru reoli'r cymhlethdodau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r meddyginiaethau hyn.
- Mae AWMSG wedi cymeradwyo tair dogfen sy'n rhestru meddyginiaethau a nodwyd fel rhai gwerth isel ar gyfer presgripsiynu yn GIG Cymru[8-10]. Nod y dogfennau hyn yw lleihau presgripsiynu meddyginiaethau sy'n cynnig budd clinigol cyfyngedig i gleifion a lle gallai triniaethau mwy costeffeithiol fod ar gael.
- Datblygodd AWMSG bolisi ar gyfer arfarnu meddyginiaethau a ddatblygwyd ar gyfer trin clefydau prin[11].

### Nod Llesiant 2 – Cymru gydnerth

- Ariannodd AWTTC astudiaeth gyda Phrifysgol Caerdydd a ddangosodd fod presgripsiynu gwrthfiotigau yn uwch mewn ardaloedd o Gymru sydd ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol uwch[5]. Amlygwyd ymwrthedd gwrthficrobaidd fel pryder iechyd cyhoeddus mawr ac mae pwysigrwydd lleihau'r defnydd diangen o wrthfiotigau wedi'i amlygu mewn adroddiad yn 2016[12].
- Cynhaliodd AWMSG reithgor dinasyddion yn 2016 i ddeall barn y cyhoedd am ymwrthedd gwrthficrobaidd[13].
- Cyflwynodd AWMSG Ddangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol yn 2002 i osod targedau ar gyfer presgripsiynu da. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran cynyddu'r defnydd o feddyginiaethau generig a gwella adroddiadau Cerdyn Melyn o adweithiau niweidiol posibl i gyffuriau.

### Nod Llesiant 3 – Cymru iachach

- Ym mis Mehefin 2021 cymeradwyodd AWMSG ganllaw ar gyfer therapi disodli nicotin (NRT) i reoli diddyfnu nicotin ymhlith oedolion sy'n ysmygu ac yn cael eu derbyn i'r ysbyty (gofal eilaidd)[14].
- Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwyodd AWMSG safon amlbroffesiwn y cytunwyd arni'n genedlaethol ar gyfer adolygiadau meddyginiaeth, fel y bydd cenedlaethau'r dyfodol o bobl yng Nghymru yn cael eu hadolygiadau meddyginiaeth yn unol â safon y cytunwyd arni'n genedlaethol[15]. Mae nifer o bractisau meddygon teulu yng Nghymru yn cymryd rhan mewn cynllun peilot ar hyn o bryd i ddefnyddio'r safon wrth gynnal adolygiadau o feddyginiaeth.
- Ym mis Chwefror 2019, cydnabu AWMSG yr ymgyrch addysg gyhoeddus “Eich Meddyginiaethau Eich Iechyd” fel arfer da[16].

## Nod Llesiant 4 – Cymru sy'n fwy cyfartal

- Sefydlodd AWTTC broses Cymru'n Un. Nodir meddyginiaethau sy'n addas ar gyfer proses Cymru'n Un drwy ddadansoddi data o geisiadau cyllido cleifion unigol. Mae Grŵp Comisiynu Llwybrau Interim (IPCG) yn asesu'r dystiolaeth ac yn argymell defnyddio'r feddyginiaeth i brif weithredwyr byrddau iechyd. Os byddant yn cymeradwyo'r argymhelliad, mae'r penderfyniad yn berthnasol ar draws GIG Cymru.
- Mae AWMSG wedi cymeradwyo un cofnod meddyginiaeth cleifion mewnol Cymru Gyfan[17] a Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol i wneud y defnydd mwyaf diogel o feddyginiaethau yng Nghymru drwy ddangos sut mae byrddau iechyd gwahanol yn presgripsynu meddyginiaethau ac amlygu unrhyw wahaniaethau o ran presgripsiynu.

## Nod Llesiant 5 – Cymru o gymunedau cydlynus

- Mae gan AWTTC raglen o ddiwrnodau hyfforddi rhithwir AWMSG ar gyfer y diwydiant fferyllol.
- Sefydlodd AWMSG grŵp Buddiannau Cleifion a'r Cyhoedd (PAPIG) sy'n cyfarfod yn rheolaidd i hysbysu a chanfod barn cleifion a'r cyhoedd ar waith AWMSG.
- Cyfrifon Twitter AWTTC ac AWMSG.
- Fe wnaeth AWMSG gynnull rheithgor dinasyddion yn 2016 i ddeall barn y cyhoedd am ymwrthedd gwrthficrobaidd[13].

## Nod Llesiant 6 – Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- Mae AWMSG wedi sefydlu cyfrif Twitter yn Gymraeg, ac mae ganddo wefan ddwyieithog gwbl ymatebol.
- Mae AWTTC yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol dwyieithog ar gyfer AWMSG a Cheisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR), ac mae wedi gosod meddalwedd Cymraeg ar gyfer ei staff.
- Gall pobl anfon eu barn ar arfarniadau meddyginiaethau yn Gymraeg ac ymateb yn Gymraeg i ymgynghoriadau ar wefan AWMSG.

## Nod Llesiant 7 – Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

- Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwyodd AWMSG "Safonau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Adolygu Meddyginiaethau"[15]. Mae Safon 4 yn cyfeirio at "Leihau gwastraff" ac yn gofyn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cynnal adolygiad o feddyginiaeth "ystyried gweithgareddau a chamau gweithredu sy'n cyfrannu at wastraff a gweithio i fynd i'r afael â hwy", ac yn darparu rhestr o ffactorau i'w hystyried a rhestr wirio[15].

- Rhoddodd adolygiad pum mlynedd o waith arfarnu meddyginiaethau AWMSG, a gyhoeddwyd yn 2018, dystiolaeth o effeithiolrwydd proses arfarnu AWMSG o ran sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael mynediad cynharach at feddyginiaethau, yn ogystal ag effeithlonrwydd drwy lai o ddyblygu â NICE[18].
- Mae AWTTC wedi datblygu offeryn ar SPIRA i fonitro ôl troed carbon dyfeisiau mewnanadlu meddygol a ddefnyddir ar gyfer asthma ac anhwylder rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Mae AWTTC wedi nodi arbedion posibl a fyddai'n cyfateb i 45,000 tunnell o garbon deuocsid bob blwyddyn.

## Cyfeiriadau


1. Llywodraeth Cymru. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yr hanfodion. Ar gael yn: https://gov.wales/well-being-future-generations#content. Cyrchwyd Mawrth 2022.
2. Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Strategaeth Pum Mlynedd 2018-2023 AWMSG. Mawrth 2018. Ar gael yn: https://awttc.nhs.wales/use-of-site/about-us1/our-committees/#AWMSG. Cyrchwyd Mawrth 2022.
3. Dhalwani NN, Fahami R, Sathanapally H et al. Association between polypharmacy and falls in older adults: a longitudinal study from England. *BMJ Open.* 2017;7(10):e016358. Ar gael yn: https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/29042378/. Cyrchwyd Mawrth 2022.
4. Sefydliad Iechyd y Byd. Her Diogelwch Cleifion Byd-eang WHO. Medication without harm. Mai 2017. Ar gael yn: https://www.who.int/initiatives/medication-without-harm. Cyrchwyd Mawrth 2022.
5. Adekanmbi V, Smith A, Farewll D et al. P24: Association between antibiotic prescribing and deprivation in Wales: a multilevel analysis. *Journal of Epidemiology and Community Health.* 2018;72:A72. Ar gael yn: https://jech.bmj.com/content/72/Suppl_1/A72.1.citation-tools. Cyrchwyd Mawrth 2022.
6. Haines K, Bracchi R, Lang R et al. The All Wales Medicines Strategy Group: 18 years' experience of a national medicines optimisation committee. *British Journal of Clinical Pharmacology.* 2021. Ar gael yn: https://doi.org/10.1111/bcp.14817. Cyrchwyd Mawrth 2022.
7. Hazell B, Robson R, and NHS Business Services Authority. Pharmaceutical waste reduction in the NHS. 2015. Ar gael yn: https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2015/06/pharmaceutical-waste-reduction.pdf. Cyrchwyd Mawrth 2022.
8. Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Meddyginiaethau a nodwyd fel blaenoriaeth isel ar gyfer cyllido yn GIG Cymru. Papur 1. Hydref 2017. Ar gael yn: https://awttc.nhs.wales/medicines-optimisation-and-safety/medicines-optimisation-guidance-resources-and-data/prescribing-guidance/items-identified-as-low-value-for-prescribing-in-nhs-wales/. Cyrchwyd Mawrth 2022.
9. Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Meddyginiaethau a nodwyd fel blaenoriaeth isel ar gyfer cyllido yn GIG Cymru. Papur 2. Rhagfyr 2018. Ar gael yn: https://awttc.nhs.wales/medicines-optimisation-and-safety/medicines-optimisation-guidance-resources-and-data/prescribing-guidance/items-identified-as-low-value-for-prescribing-in-nhs-wales/. Cyrchwyd Mawrth 2022.
10. Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Meddyginiaethau a nodwyd fel blaenoriaeth isel ar gyfer cyllido yn GIG Cymru. Papur 3. Chwefror 2020. Ar gael yn: https://awttc.nhs.wales/medicines-optimisation-and-safety/medicines-optimisation-guidance-resources-and-data/prescribing-guidance/items-identified-as-low-value-for-prescribing-in-nhs-wales/. Cyrchwyd Mawrth 2022.
11. Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Proses arfarnu ar gyfer meddyginiaethau a ddatblygwyd ar gyfer clefydau prin. Gorffennaf 2019. Ar gael yn: https://awttc.nhs.wales/accessing-medicines/make-a-submission/pharmaceutical-industry-submissions/submit-for-awmsg-appraisal/invisible/appraisal-process-for-medicines-developed-for-rare-diseases/. Cyrchwyd Mawrth 2022.
12. O'Neill J, Wellcome Trust, a Llywodraeth EM. Tackling drug-resistant infections globally. Final report and recommendations. The review on

antimicrobial resistance. 2016. Ar gael yn: https://wellcomecollection.org/works/thvwsuba/items?sierraId=b28644797&langCode=eng&canvas=1. Cyrchwyd Mawrth 2022.

13. Burki T. Citizens' juries: the public verdict on antibiotic resistance. *The Lancet Respiratory Medicine.* 2016;4(10):779. Ar gael yn: https://doi.org/10.1016/S2213-2600(16)30264-8. Cyrchwyd Mawrth 2022.
14. Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Rheolaeth glinigol gychwynnol oedolion sy'n ysmygwyr mewn gofal eilaidd. Mehefin 2021. Ar gael yn: https://awttc.nhs.wales/medicines-optimisation-and-safety/medicines-optimisation-guidance-resources-and-data/prescribing-guidance/initial-clinical-management-of-adult-smokers-in-secondary-care/. Cyrchwyd Mawrth 2022.
15. Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Safonau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Adolygu Meddyginiaethau. Ionawr 2021. Ar gael yn https://awttc.nhs.wales/medicines-optimisation-and-safety/medicines-optimisation-guidance-resources-and-data/prescribing-guidance/welsh-national-standards-for-medication-review/. Cyrchwyd Mawrth 2022.
16. GIG Cymru. Eich Meddyginiaethau Eich Iechyd. 2021. Ar gael yn: https://ymyh.org/. Cyrchwyd Mawrth 2022.
17. Is-grŵp Adolygu Siart Cyffuriau Cymru Gyfan Pwyllgor Prif Fferyllwyr Cymru. Cofnod Meddyginiaethau Gweinyddu Cleifion Mewnol. Mehefin 2019. Ar gael yn: https://awttc.nhs.wales/medicines-optimisation-and-safety/medicines-optimisation-guidance-resources-and-data/medication-charts-and-records/in-patient-medication-administration-record/. Cyrchwyd Mawrth 2022.
18. Varnava A, Bracchi R, Samuels K et al. New Medicines in Wales: The All Wales Medicines Strategy Group (AWMSG) Appraisal Process and Outcomes. *Pharmacoeconomics.* 2018;36(5):613-624. Ar gael yn: https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/29520603/. Cyrchwyd Mawrth 2022.